# Comisiwn y Senedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Lleoliad Allanol** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 28 Medi 2020** |
| Amser: | **12.30 - 14.25** |

## Cofnodion: SC(5)2020(6)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Elin Jones AS (Cadeirydd)**<br>**Suzy Davies AS**<br>**Rhun ap Iorwerth AS**<br>**David J Rowlands AS**<br>**Joyce Watson AS** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**<br>**Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd**<br>**Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid**<br>**Lowri Williams, Pennaeth Adnoddau Dynol a Chynhwysiant**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd**<br>**Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

1.a Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni ddaeth ymddiheuriadau i law ar gyfer y cyfarfod.

1.b Datgan buddiannau

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

1.c Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion 13 Gorffennaf.

## 2 Cyllideb Ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2021/22

Ystyriodd y Comisiynwyr ddiwygiadau pellach i'r gyllideb ddrafft, gyda mân newidiadau ers cyfarfod y Comisiwn ar 13 Gorffennaf.
Gwnaethant gymeradwyo Cyllideb Ddrafft 2021-22, cyn iddi gael ei gosod yn unol â gofynion y Rheolau Sefydlog.
At hynny, cytunodd y Comisiynwyr ar y diwygiadau i'r datgeliadau ar gyfer Safon Cyfrifeg Ariannol Ryngwladol newydd 16 – Prydlesi (IFRS 16) a diwygio blaenoriaethau Cronfa Brosiect.
At hynny, nododd y Comisiwn y llythyr a anfonwyd gan y Gweinidog Cyllid at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

## 3 Diweddariad ynghylch COVID-19

A. **Diweddariad ynghylch Covid-19**
Nododd y Comisiynwyr y diweddariad a gafwyd ar drefniadau a fydd ar waith ar gyfer tymor yr hydref, a thrafodwyd y newidiadau diweddar i reoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Gwnaethant gytuno i ymestyn
y cyfnod presennol o fod ar gau i'r cyhoedd tan 8 Tachwedd er mwyn ystyried y trefniadau o ran pwy sy'n bresennol yn yr adeilad yn eu cyfarfod nesaf, yn dilyn profiad hanner cyntaf y tymor ac o ystyried y sefyllfa bryd hynny.

B. **Y dewisiadau o ran cynyddu'r niferoedd sy'n bresennol mewn person yn y Cyfarfod Llawn**
Ystyriodd y Comisiynwyr y dewisiadau o ran cynyddu capasiti'r Siambr er mwyn i'r Aelodau allu bod yno yn ystod Cyfarfodydd Llawn, y tu hwnt i'r gallu presennol, tra bod yn dal i fod angen cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr.
Daethant i'r casgliad, er ei bod yn bwysig eu bod wedi ystyried y dewisiadau, ni ddylid mynd ar drywydd hynny ar hyn o bryd.

## 4 Cysylltiadau gwleidyddol yr Aelodau

Trafododd y Comisiynwyr y broses o gofnodi cysylltiadau gwleidyddol Aelodau nad oeddent yn perthyn i grwpiau pleidiau a gynrychiolir lle mae adnoddau'r Comisiwn yn cael eu defnyddio, e.e. y wefan, Cofnod y Trafodion, darpariaeth deunydd wedi'i argraffu, ac ati.
Cytunodd y Comisiynwyr y dylid caniatáu i'r Aelodau nodi eu cysylltiad ag unrhyw blaid sydd wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol. Bydd y Comisiwn yn dychwelyd at y mater yn ei adroddiad etifeddiaeth i'r Chweched Senedd.

## 5 Urddas a Pharch - adroddiad ar yr arolwg

Ystyriodd y Comisiynwyr gynnwys y trydydd adroddiad sy'n adolygu perfformiad yn erbyn ymrwymiad y Senedd i Urddas a Pharch, yn dilyn arolwg ar-lein a gynhaliwyd ym mis

Mehefin 2020. Wrth wneud hynny, cytunodd y Comisiynwyr y byddai'n amserol adolygu'r polisi yn ei gyfanrwydd – yn barod ar gyfer y Chweched Senedd yn enwedig – ac ochr yn ochr â gwaith y Pwyllgor Safonau o adolygu'r Cod Ymddygiad. At hynny, cadarnhaodd y Comisiynwyr eu cefnogaeth i feysydd gwaith y dyfodol sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.
Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ôl ei gwblhau.

## 6 Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch ymgysylltu â'r cyhoedd

Croesawodd y Comisiynwyr ddiweddariad ynghylch paratoadau o ran gweithgareddau ymgysylltu ar gyfer mis Tachwedd yr oeddent, yn eu barn hwy, yn gynhwysfawr ac yn amrywiol. Gwnaethant drafod arwyddocâd estyn allan i gymunedau sy'n anodd eu cyrraedd, ac roeddent yn gefnogol o'r dull, sydd eisoes yn dangos mwy o gyfranogiad gan ystod fwy amrywiol o bobl.

## 7 Papurau i'w nodi:

### 7.a Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd – Adroddiad

Nododd y Comisiynwyr yr adroddiad, sy'n cynnwys 32 o argymhellion ar gyfer Gweinidogion Cymru, y Senedd, Comisiwn y Senedd, pleidiau gwleidyddol, y Bwrdd Taliadau a'r Comisiwn Etholiadol.

### 7.b Diweddariad gan y Bwrdd Gweithredol (penderfyniadau RAD)

Nododd y Comisiynwyr y crynodeb arferol o benderfyniadau o ran recriwtio, sy'n cael ei ddarparu i bob cyfarfod o'r Comisiwn.

### 7.c Cofnodion drafft y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Nododd y Comisiynwyr y diweddariad arferol ynghylch cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

### 7.d Newid rheolau cynllun pensiwn Aelodau o'r Senedd

Nododd y Comisiynwyr fod y Bwrdd Taliadau wedi ysgrifennu am gynnig i newid rheolau'r Cynllun i roi hyblygrwydd i'r Actiwari, o ran pryd y mae'n rhaid cwblhau a llofnodi'r prisiad actiwaraidd. Ymgynghorwyd â'r holl Aelodau.

## 8 Unrhyw faterion eraill

- **Hwyluso datganiad trawsbleidiol** – Cytunodd y Comisiynwyr i ymgynghori â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Gydraddoldeb Hiliol o ran hwyluso datblygu datganiad Cymraeg trawsbleidiol, gan ymgorffori egwyddorion y Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu ar sail Hil, yn unol â chais y Senedd.
- **Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus** – Nododd y Comisiynwyr lythyr a gafodd y Prif Weithredwr gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn dilyn sesiwn dystiolaeth y pwyllgor ar 21 Medi.

Ers y cyfarfod diwethaf, mae’r Comisiynwyr wedi gwneud un penderfyniad brys yn ymwneud ag ymestyn y cyfnod ar gyfer canslo gweithgareddau ymgysylltu cyhoeddus wyneb yn wyneb.